# Pecyn Dogfen Cyhoeddus


At: Aelodau'r Cabinet

Dyddiad: 14 Chwefror 2024

Rhif Union: 01824712568

ebost: democrataidd@sirddinbych.gov.uk


Annwyl Gynghorydd

Fe'ch gwahoddir i fynychu cyfarfod y **CABINET, DYDD MAWRTH, 20 CHWEFROR 2024** am **10.00 am** yn **SIAMBR Y CYNGOR, NEUADD Y SIR, RHUTHUN A THRWY GYNHADLEDD FIDEO**.

Yn gywir iawn

G Williams
Swyddog Monitro

**AGENDA**

**1 YMDDIHEURIADAU**

**2 DATGAN CYSYLLTIAD**

Yr Aelodau i ddatgan unrhyw gysylltiad personol neu gysylltiad sy'n rhagfarnu ag unrhyw fater a nodwyd i'w ystyried yn y cyfarfod hwn.

**3 MATERION BRYS**

Hysbysiad o eitemau y dylid, ym marn y Cadeirydd, eu hystyried yn y cyfarfod fel materion brys yn unol ag Adran 100B(4) Deddf Llywodraeth Leol 1972.

**4 COFNODION** (Tudalennau 5 - 16)

Derbyn cofnodion cyfarfod y Cabinet a gynhaliwyd ar 23 Ionawr 2024 (copi'n amgaeedig).

**5 FFRAMWAITH AILWAMPIO TAI GWAG Y CYNGOR** (Tudalennau 17 - 36)

Ystyried adroddiad gan y Cynghorydd Rhys Thomas, Aelod Arweiniol Tai a Chymunedau (copi'n amgaeedig) sy'n gofyn am gymeradwyaeth y Cabinet i ail-dendro Fframwaith Tai Gwag y Cyngor.

**6 ARGYMHELLION Y GRŴP CRAFFU CYFALAF** (Tudalennau 37 - 46)

Ystyried adroddiad gan y Cynghorydd Gwyneth Ellis, Aelod Arweiniol Cyllid, Perfformiad ac Asedau Strategol (copi'n amgaeedig) yn gofyn am gefnogaeth y Cabinet i'r prosiectau a nodwyd i'w cynnwys yng Nghynllun Cyfalaf 2024/25 a'u hargymell i'r Cyngor Llawn.

**7 ADRODDIAD CYLLID** (Tudalennau 47 - 62)

Ystyried adroddiad gan y Cynghorydd Gwyneth Ellis, Aelod Arweiniol Cyllid, Perfformiad ac Asedau Strategol (copi ynghlwm), ynglŷn â'r sefyllfa ariannol ddiweddaraf a'r cynnydd a wnaed o ran y strategaeth y cytunwyd arni ar gyfer y gyllideb.

**8 RHAGLEN WAITH Y CABINET** (Tudalennau 63 - 68)

Derbyn Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol y Cabinet sydd ynghlwm a nodi'r cynnwys.

**MEMBERSHIP**

**Y Cynghorwyr**

**Gwyneth Ellis**
**Gill German**
**Elen Heaton**
**Julie Matthews**
**Jason McLellan**
**Barry Mellor**
**Win Mullen-James**
**Rhys Thomas**
**Emrys Wynne**

**COPIAU I'R:**

Holl Gynghorwyr er gwybodaeth
Y Wasg a'r Llyfrgelloedd
Cynghorau Tref a Chymuned

**DEDDF LLYWODRAETH LEOL 2000**

**Cod Ymddygiad Aelodau**

## DATGELU A CHOFRESTRU BUDDIANNAU

| | |
|---|---|
| Rwyf i,<br>(enw) | |
| *Aelod /Aelod cyfetholedig o<br>*(*dileuer un)* | **Cyngor Sir Ddinbych** |

**YN CADARNHAU** fy mod wedi datgan buddiant ***personol / personol a sy'n rhagfarnu** nas datgelwyd eisoes yn ôl darpariaeth Rhan III cod ymddygiad y Cyngor Sir i Aelodau am y canlynol:-
*(*dileuer un)*

| | |
|---|---|
| Dyddiad Datgelu: | |
| Pwyllgor (nodwch): | |
| Agenda eitem | |
| Pwnc: | |
| Natur y Buddiant:<br>*(Gweler y nodyn isod)** | |
| Llofnod | |
| Dyddiad | |

Noder: Rhowch ddigon o fanylion os gwelwch yn dda, e.e. 'Fi yw perchennog y tir sy'n gyfagos i'r cais ar gyfer caniatâd cynllunio a wnaed gan Mr Jones', neu 'Mae fy ngŵr / ngwraig yn un o weithwyr y cwmni sydd wedi gwneud cais am gymorth ariannol'.

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

# CABINET

Cofnodion cyfarfod y Cabinet a gynhaliwyd yn Siambr y Cyngor, Neuadd y Sir, Rhuthun a thrwy gynhadledd fideo ddydd Mawrth, 23 Ionawr 2024 am 10.00am.

## YN BRESENNOL

Y Cynghorwyr Jason McLellan, Arweinydd ac Aelod Arweiniol Twf Economaidd a Threchu Amddifadedd; Gill German, Dirprwy Arweinydd ac Aelod Arweiniol Addysg, Plant a Theuluoedd; Gwyneth Ellis, Aelod Arweiniol Cyllid, Perfformiad ac Asedau Strategol; Elen Heaton, Aelod Arweiniol Iechyd a Gofal Cymdeithasol; Julie Matthews, Aelod Arweiniol Polisi, Cydraddoldeb a Strategaeth Gorfforaethol; Barry Mellor, Aelod Arweiniol yr Amgylchedd a Chludiant; Win Mullen-James, Aelod Arweiniol Datblygu Lleol a Chynllunio; Rhys Thomas, Aelod Arweiniol Tai a Chymunedau; ac Emrys Wynne, Aelod Arweiniol y Gymraeg, Diwylliant a Threftadaeth

**Arsylwyr:** Y Cynghorwyr Michelle Blakeley-Walker, Joan Butterfield, Ellie Chard, Ann Davies, Bobby Feeley, Karen Edwards, Pauline Edwards, James Elson, Huw Hilditch-Roberts, Hugh Irving, Alan James, Brian Jones, James May, Terry Mendies, Gareth Sandilands, Andrea Tomlin, Cheryl Williams, David Williams, a Huw Williams

## HEFYD YN BRESENNOL

Y Prif Weithredwr (GB); Cyfarwyddwyr Corfforaethol: Gwasanaethau Cymdeithasol ac Addysg (NS), Llywodraethu a Busnes / Swyddog Monitro (GW), a'r Amgylchedd a'r Economi (TW); Penaethiaid Gwasanaeth: Cyllid ac Archwilio (LT), Gwasanaeth Tai a Chymunedau (LG), Gwasanaeth Cefnogi Corfforaethol: Perfformiad, Digidol ac Asedau (HVE); Prif Reolwr Refeniw, Budd-daliadau a Chontractau (PB); Rheolwr Darparu Gwasanaeth: Refeniw a Budd-daliadau (LG); Prif Syrfëwr Prisio ac Ystadau Siartredig (MJ); Rheolwr Prisio ac Ystadau (RE) a Gweinyddwyr Pwyllgorau (KEJ & SLW [Gwe-ddarlledu])

### 1 YMDDIHEURIADAU

Byddai'r Cynghorydd Win Mullen-James yn cyrraedd yn hwyr oherwydd ymrwymiad cynharach.

### 2 DATGAN CYSYLLTIAD

Ni chafodd unrhyw gysylltiad ei ddatgan.

### 3 MATERION BRYS

Ni chodwyd unrhyw faterion brys.

### 4 COFNODION

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod y Cabinet a gynhaliwyd ar 19 Rhagfyr 2023.

***PENDERFYNWYD*** *derbyn cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 19 Rhagfyr 2023 a chadarnhau eu bod yn gywir.*

**5 CANLYNIAD ADOLYGIAD Y PWYLLGOR CRAFFU CYMUNEDAU O BENDERFYNIAD Y CABINET YN YMWNEUD Â'R CYNNIG AM ARBEDION I'R GWASANAETH LLYFRGELLOEDD/SIOPAU UN ALWAD**

Cyflwynodd y Cynghorydd Huw Williams, Cadeirydd y Pwyllgor Craffu Cymunedau yr adroddiad ar ganfyddiadau ac argymhellion y Pwyllgor Craffu a gynhaliwyd ar 11 Ionawr 2024 yn dilyn ystyried galw i mewn benderfyniad y Cabinet a wnaed ar 19 Rhagfyr 2023 mewn perthynas â'r Cynnig Arbedion Llyfrgell/Siop Un Alwad.

Roedd yr adroddiad yn cyfeirio at y drafodaeth hirfaith yng nghyfarfod y Pwyllgor Craffu ar sail galw'r penderfyniad i mewn, ac yn amlygu pryderon penodol y Pwyllgor ynghylch y gostyngiad mewn oriau agor a'r effaith y byddai hynny'n ei chael ar y canlynol –

- argaeledd a hygyrchedd y gwasanaeth llyfrgelloedd a siopau un alwad i breswylwyr, yn arbennig y rhai mwyaf diamddiffyn a'r rhai wedi'u heithrio'n ddigidol
- argaeledd 'canolfannau clyd' ar gyfer y rhai a gafodd eu taro waethaf gan yr argyfwng costau byw, pobl a oedd yn unig, a'r rhai sy'n byw gyda phroblemau iechyd a'u gofalwyr
- argaeledd cyfleusterau llyfrgell ar gyfer plant a phobl ifanc i'w defnyddio i astudio neu waith ymchwilio, neu fel lloches ddiogel i ffwrdd o sefyllfaoedd personol neu deuluol anhrefnus
- argaeledd llyfrgelloedd i'w defnyddio gan grwpiau cymunedol a sefydliadau gwirfoddol er mwyn iddynt ddarparu gwasanaethau cymorth a chyngor y mae mawr eu hangen i drigolion.

Roedd y Pwyllgor hefyd yn pryderu am effeithiau negyddol anfwriadol posibl ar wasanaethau eraill y cyngor sydd eisoes dan bwysau, yr effaith andwyol ar forâl staff a'r effaith y gallai colli staff profiadol ei chael ar gapasiti'r gwasanaeth yn y dyfodol i ddarparu gwasanaethau o safon. Teimlai'r Aelodau nad oedd digon o ymchwiliadau wedi'u gwneud gyda chyrff allanol neu sefydliadau allanol i sicrhau cyllid neu adnoddau eraill i helpu i gynnal y lefelau gwasanaeth presennol cyn i benderfyniad gael ei wneud. O ganlyniad, gofynnwyd i'r Cabinet ailystyried ei benderfyniad gwreiddiol gan ystyried casgliadau ac argymhellion y Pwyllgor Craffu bod y Cabinet yn -

(i) cydnabod arsylwadau, canlyniadau ac argymhellion y Pwyllgor Craffu Cymunedau yn dilyn ei adolygiad o benderfyniad y Cabinet yn ymwneud â'r 'Cynnig am Arbedion i'r Gwasanaeth Llyfrgelloedd/Siop Un Alwad'; ac
(ii) yn cytuno i argymhelliad y Pwyllgor i ohirio gweithrediad y penderfyniad nes fydd mwy o gwaith archwilio wedi'i gwblhau er mwyn canfod ffynonellau cyllido amgen sydd ar gael i'r Cyngor a chyrff partner eraill yn y sector preifat neu'r sector cyhoeddus.

Diolchodd yr Arweinydd i'r Cynghorydd Williams am adrodd ar drafodaeth ac argymhellion y Pwyllgor Craffu. Diolchodd y Cabinet hefyd i'r Pwyllgor Craffu am eu gwaith.

Cydymdeimlodd y Cynghorydd Emrys Wynne â'r pryderon a godwyd ynghylch yr effaith bosibl y byddai gostyngiad mewn oriau yn ei chael fel y nodwyd yn yr adroddiad. Fodd bynnag, roedd yn parhau o'r un farn bod y rhesymau dros alw'r penderfyniad i mewn, a'r pryderon hynny, wedi'u trafod yn drylwyr gan y Cabinet ar 19 Rhagfyr a bod y Cabinet wedi bod yn gwbl ymwybodol o'r holl faterion a risgiau hynny pan wnaed y penderfyniad. Roedd angen y penderfyniad i ymateb i'r her ariannol ddifrifol a gosod cyllideb gytbwys. Roedd y Cabinet wedi gwrando ac ymateb i adborth o'r ymgynghoriad cyhoeddus gyda newidiadau yn arwain at tua 30 o oriau agor ychwanegol o gymharu â'r cynnig gwreiddiol ac agor ar ddiwrnodau penodol. Nid oedd yn cefnogi argymhelliad y Pwyllgor Craffu i ohirio gweithredu'r penderfyniad hyd nes y byddai gwaith pellach yn cael ei wneud i ganfod ffynonellau ariannu amgen. Roedd eisoes wedi ymrwymo i weithio gydag aelodau, swyddogion, a Chynghorau Dinas/Tref/Cymuned i ystyried modelau amgen o ddarparu gwasanaethau llyfrgell gyda'r bwriad o ddiogelu a thyfu'r ddarpariaeth honno at y dyfodol, lliniaru'r toriadau, a chwilio am ffynonellau incwm eraill, ac roedd angen dybryd i osod cyllideb gytbwys ar gyfer y flwyddyn ariannol nesaf. Nid oedd unrhyw un eisiau torri gwasanaethau llyfrgell, ond roedd y penderfyniad yn cynrychioli'r canlyniad gorau posibl i lyfrgelloedd o ystyried y sefyllfa ariannol bresennol ac yn golygu na fyddai'n rhaid i unrhyw lyfrgell gau a byddai'r holl wasanaethau presennol yn parhau, er gwaetha'r oriau llai.

Roedd y Cynghorydd Gwyneth Ellis hefyd yn cydnabod y craffu trylwyr ac roedd yn falch nad oedd yr argymhelliad wedi bod i wrthdroi'r penderfyniad ond i'w ohirio tra'n disgwyl ymchwil pellach i ffynonellau ariannu amgen. Yn anffodus, roedd yr argymhelliad yn rhy benagored, ac roedd ymrwymiad eisoes wedi'i wneud i edrych i mewn i ddulliau eraill o ariannu a darparu'r gwasanaeth llyfrgell. O ystyried yr amserlen ar gyfer gwneud toriadau/arbedion yn y gyllideb roedd yn hanfodol bod y Cabinet yn cadarnhau ei benderfyniad er mwyn pennu cyllideb gytbwys. Nododd y Pennaeth Cyllid hefyd y risgiau sy'n gysylltiedig ag oedi'r penderfyniad a chyflawni cyllideb gytbwys. Cyfeiriodd y Cynghorydd Barry Mellor at awdurdodau lleol yn Lloegr a oedd i bob pwrpas wedi datgan eu bod yn fethdalwyr gyda llawer o awdurdodau lleol Cymru yn agos at y sefyllfa honno a bod angen gwneud penderfyniadau anodd i osgoi'r canlyniad hwnnw.

Diolchodd y Cynghorydd Huw Williams i'r Cabinet am yr ymatebion. Tynnodd sylw at yr ymateb digynsail i'r ymgynghoriad a chryfder teimladau a siaradwyr angerddol yn ystod y drafodaeth graffu a'r Cabinet. Roedd y Pwyllgor o'r farn y dylid bod wedi gwneud mwy cyn gwneud y penderfyniad ar ymchwilio i ffrydiau ariannu posibl eraill. Fodd bynnag, nid oedd am ailagor y drafodaeth.

Ar ôl ystyried yr adroddiad a'r argymhellion gan y Pwyllgor Craffu, nododd y Cabinet fod yr holl faterion a godwyd wedi'u hystyried wrth wneud y penderfyniad yn eu cyfarfod ar 19 Rhagfyr, a bod ymrwymiadau wedi'u gwneud i weithio gyda budd-ddeiliaid a sefydliadau allanol ar fodelau amgen o darparu gwasanaethau llyfrgell a chwilio am ffynonellau incwm eraill. Gofynnodd y Cabinet am sicrwydd y byddai gwaith yn cael ei wneud fel mater o frys. Ymrwymodd y Prif Weithredwr i

weithio gyda phartneriaid a sefydliadau eraill gyda'r bwriad o ar ddod o hyd i ffyrdd eraill o gefnogi llyfrgelloedd ac eglurodd y byddai cadarnhau'r penderfyniad o ran y gyllideb yn caniatáu eglurder a sicrwydd ynghylch y trafodaethau hynny. Ail-bwysleisiodd y Cabinet y sefyllfa ariannol enbyd ar gyfer cyllid llywodraeth leol ac o ystyried maint yr arbedion cyllidebol sydd eu hangen ar Sir Ddinbych ar gyfer y flwyddyn ariannol nesaf a'r blynyddoedd i ddod byddai holl wasanaethau'r cyngor yn wynebu toriadau ac roedd penderfyniad ar yr arbedion llyfrgell yn cael ei wneud yn y cyd-destun hwnnw. Roedd yr arbedion llyfrgell/siop un alwad wedi cael eu trafod yn helaeth ac roedd y penderfyniad wedi'i wneud gyda'r bwriad o ddiogelu holl lyfrgelloedd y sir felly ni fyddai'n rhaid cau'r un ohonynt.

Amlinellodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol: Llywodraethu a Busnes/Swyddog Monitro y broses o alw i mewn, paramedrau trafod y Cabinet, a'r opsiynau sydd ar gael i'r Cabinet o ran gwneud penderfyniadau. Cynigiodd y Cynghorydd Gwyneth Ellis, ac eiliwyd gan y Cynghorydd Elen Heaton, fod y Cabinet yn cytuno ar argymhelliad 3.1 yr adroddiad, ac yn anghytuno ag argymhelliad 3.2 yr adroddiad a chadarnhau ei benderfyniad gwreiddiol, ond yn ymrwymo i wneud gwaith archwiliadol i ddod o hyd i ffynonellau ariannu eraill.

Ceisiodd y Cynghorydd Hugh Irving (llofnodwr ar y cais i alw penderfyniad i mewn) annerch y Cabinet ar y rhesymeg y tu ôl i alw'r penderfyniad i mewn a herio'r penderfyniad. Cadarnhaodd yr Arweinydd fod y Cabinet yn gwbl ymwybodol o'r rhesymau a bod yr heriau wedi'u nodi'n glir yn yr adroddiad a bod y Cabinet wedi ymateb i'r materion a godwyd. Roedd y mater wedi bod drwy'r prosesau democrataidd priodol, ac o ystyried paramedrau trafod y Cabinet, ni fyddai'n briodol ail-gynnal nac ail-agor y ddrafodaeth graffu. Cyfeiriodd y Swyddog Monitro at y cyfansoddiad a chadarnhaodd fod hyn yn gywir. O ganlyniad, edrychodd yr Arweinydd ar gynnig y Cynghorydd Gwyneth Ellis, a eiliwyd gan y Cynghorydd Elen Heaton, a gafodd ei ailddatgan er eglurder. Ar ôl cael ei roi i bleidlais –

***PENDERFYNWYD*** –

*(a) Bod y Cabinet yn cydnabod arsylwadau, canlyniadau ac argymhellion Pwyllgor Craffu Cymunedau yn dilyn ei adolygiad o benderfyniad y Cabinet yn ymwneud â'r 'Cynnig am Arbedion i'r Gwasanaeth Llyfrgelloedd / Siop Un Alwad', ac*

*(b) Nad yw'r Cabinet yn derbyn argymhelliad 3.2 adroddiad y Pwyllgor Craffu, mae'n cadarnhau'r penderfyniad gwreiddiol a wnaeth ar 19 Rhagfyr 2023, ac yn ymgymryd â mwy o waith i nodi ffynonellau cyllid amgen.*

## 6 CYLLIDEB Y CYNGOR 2024/25

Cyflwynodd y Cynghorydd Gwyneth Ellis yr adroddiad yn nodi goblygiadau Setliad Ariannol Dros Dro Llywodraeth Cymru ar gyfer Llywodraeth Leol 2024/25 a chynigion i osod cyllideb gytbwys ar gyfer 2024/25, gan gynnwys lefel Treth y Cyngor.

Roedd yr heriau ariannol digynsail a oedd yn wynebu'r cyngor, ynghyd â'r holl awdurdodau lleol eraill, yn golygu bod angen proses wahanol i bennu'r gyllideb ac

roedd wedi bod yn broses hynod o anodd ac anghyfforddus. Diolchodd y Cynghorydd Ellis i bawb a gymerodd ran yn y broses honno a oedd wedi arwain at gyflwyno cyllideb gytbwys.

Darparodd y Cynghorydd Ellis a'r Pennaeth Cyllid ac Archwilio drosolwg o broses y gyllideb a'r sefyllfa ariannol ddiweddaraf ac ymhelaethodd ar y cynigion i'w hystyried a'u hargymell i'r Cyngor llawn er mwyn gosod y gyllideb ar gyfer 2024/25. Yn gryno, roedd y setliad dros dro wedi arwain at gynnydd arian parod o 3.6% (£6.720m) ac yn dilyn addasiad sylfaen treth y cyngor roedd yn uwch na'r gymhariaeth arian parod ar 3.7% (o gymharu â chyfartaledd Cymru o 3.1%) gyda'r setliad terfynolyn cael ei ddisgwyl yn gynnar ym mis Mawrth. Roedd y setliad yn cynnwys pob cynnydd mewn cyflogau i athrawon a swyddi nad ydynt yn rhai addysgu a chyfrifoldeb i dalu Cyflog Byw Gwirioneddol i weithwyr gofal. Rhoddwyd manylion am bwysau gwerth £24.682 miliwn ac roedd y setliad dros dro yn cynhyrchu £6.720 miliwn gan adael bwlch cyllido gwerth £17.962 miliwn gyda chynigion i gau'r bwlch hwnnw wedi eu nodi yn yr adroddiad a'u hegluro ymhellach yn y cyfarfod. Cynigiwyd codiad Treth y Cyngor o 8.23% ynghyd ag 1.11% ychwanegol (newid i'r ffigwr dangosol o 1.3% yn yr adroddiad) ar gyfer y cynnydd yn yr ardoll i Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru sy'n cyfateb i godiad cyffredinol o 9.34% i gynhyrchu £7.580 miliwn o refeniw ychwanegol. Tynnwyd sylw hefyd at y defnydd arfaethedig o gronfeydd wrth gefn a glustnodwyd i gynorthwyo gyda gosod y gyllideb. Roedd y risgiau o beidio â chyflawni cyllideb gytbwys hefyd wedi'u nodi ynghyd â mesurau lliniaru a gwaith pellach sydd ei angen yn y dyfodol. Roedd y rhagolygon ariannol tymor canolig yn edrych yr un mor heriol. Gan fod y setliad terfynol yn hwyr, argymhellwyd bod awdurdod yn cael ei ddirprwyo er mwyn galluogi addasiadau arian parod yng nghynigion y gyllideb hyd at £500,000. Roedd yn bwysig nodi pe na bai cynigion yn yr adroddiad yn cael eu derbyn, bod yn rhaid cyflwyno cynigion amgen er mwyn cyflawni cyfrifoldeb statudol y Cyngor i osod cyllideb gytbwys.

Yn ystod y drafodaeth condemniodd y Cabinet y sefyllfa ariannol sy'n wynebu llywodraeth leol a oedd yn golygu bod yn rhaid gwneud toriadau difrifol i wasanaethau hanfodol er mwyn pennu cyllideb gytbwys a galwyd am gyllid gwell a chynaliadwy i ddarparu'r gwasanaethau hynny. Nodwyd bod galwadau diweddar wedi'u gwneud gan Aelodau Seneddol ar draws y sbectrwm gwleidyddol i Lywodraeth y DU ddarparu cyllid ychwanegol i lywodraeth leol. O ystyried y cyd-destun ariannol presennol, roedd y Cabinet yn credu bod cynigion y gyllideb yn cynrychioli'r canlyniad gorau i sicrhau bod gwasanaethau gofal cymdeithasol a dysgwyr ysgol yn cael eu hamddiffyn cyn belled ag y bo modd ac i ddiogelu'r rhai mwyaf agored i niwed mewn cymdeithas.

Croesawodd y Cabinet y setliad uwch na'r disgwyl gan Lywodraeth Cymru ond nododd ei fod yn seiliedig ar ddata a fyddai'n arwain at alw uwch am wasanaethau ac nad oedd yn newid y sefyllfa gyllidebol yn sylweddol o ystyried y byddai darparu gwasanaethau yn 2024/25 yn costio £24.682 miliwn ychwanegol o gymharu â 2023/24, yn bennaf oherwydd pwysau chwyddiant a chynnydd mawr yn y galw gan wasanaethau cleientiaid. Cydnabuwyd y risg y byddai'r galw am wasanaethau cymhleth yn parhau i gynyddu gyda mwy o alw am wasanaethau gofal a mwy o bobl yn wynebu digartrefedd. Talwyd teyrnged i'r gwaith caled o wneud arbedion hyd yma, er gwaethaf hynny, roedd Penaethiaid Gwasanaeth wedi cael targed

arbedion pellach o £3 miliwn i wneud iawn am y diffyg gyda chynigion i aelodau ym mis Mawrth cyn dechrau'r flwyddyn ariannol; nodwyd bod mentrau i gynorthwyo yn cynnwys y cynllun ymadael gwirfoddol ac adolygiad parhaus o ffioedd a thaliadau. Ysgolion oedd â'r gyllideb fwyaf a oedd wedi'i diogelu yn y blynyddoedd diwethaf ac er na ellid ei diogelu yn ei chyfanrwydd oherwydd maint yr her ariannol, roedd cynnydd o 5.83% yn gyffredinol gydag ysgolion yn gwneud arbediad o 3%. Derbyniwyd yr angen i warchod cronfeydd wrth gefn heb eu clustnodi o ystyried lefel gynyddol y risg yn y gyllideb ar gyfer 2024/25 a blynyddoedd i ddod ynghyd â chynigion ar gyfer defnyddio cronfeydd wrth gefn a glustnodwyd i gynorthwyo gyda gosod y gyllideb. Roedd y Cabinet yn ymwybodol y byddai'r cynnydd yn Nhreth y Cyngor yn anodd i drigolion ond roedd yn cydnabod y byddai Cynllun Gostyngiadau Treth y Cyngor yn diogelu'r rhai mwyaf agored i niwed. Nodwyd y newidiadau diweddar i Ardoll Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru a'r effaith ar Dreth y Cyngor.

Trafododd y Cabinet elfennau pellach o'r gyllideb fel a ganlyn -

- Tynnodd y Cynghorydd Gill German sylw at y setliad gwell oherwydd y cynnydd yn y boblogaeth a data prydau ysgol am ddim a'r effaith ar Addysg a Gwasanaethau Plant a oedd wedi'i gydnabod yn y gyllideb; roedd hi wedi bod yn falch gyda'r prosiect buddsoddi i arbed yn y gwasanaeth maethu i leihau'r ddibyniaeth ar asiantaethau allanol, cynyddu gofalwyr maeth mewnol a gweithio i drawsnewid a gwella gwasanaethau. Amlinellodd y Pennaeth Cyllid sefyllfa'r ysgolion gyda chynnydd wedi'i gyllido yng nghyllideb ysgolion o £7.6 miliwn ac effeithlonrwydd o 3% a oedd yn cyfateb i ostyngiad o £2.7 miliwn a adawodd gynnydd net o £5.6 miliwn; roedd hyn yn cynrychioli cynnydd cyffredinol o 5.8% yng nghyllideb ysgolion. Teimlai'r Cynghorydd German ei bod yn iawn i'r cyngor amsugno llawer o bwysau'r ysgolion ac y byddai'n parhau i wneud y mwyaf o'r buddion i ysgolion drwy ddyrannu grant.
- Ymatebodd y Pennaeth Cyllid ac Archwilio i gwestiynau ynghylch y strategaeth ar gyfer defnyddio cronfeydd wrth gefn a oedd yn cynnwys y defnydd o'r gronfa wrth gefn lliniaru cyllideb i ariannu'r gorwariant a ragwelwyd o £3.2 miliwn yn y flwyddyn ariannol gyfredol a fyddai'n gadael balans o £1.5 miliwn a ailbennu'r Gronfa Bensiwn Wrth Gefn (wedi'i neilltuo i ariannu cynnydd posibl mewn cyfraniadau pensiwn) i ariannu'r costau cyflog yn 2024/25 yn ychwanegol at y pwysau yn y Cynllun Ariannol Tymor Canolig a'r costau ymadael sy'n gysylltiedig â'r Cynllun Ymadael Gwirfoddol a fyddai'n gadael fawr ddim ar ôl yn y gronfa wrth gefn, a throsglwyddo balans y Gronfa Benthyciadau Diwygiedig i'r gronfa wrth gefn lliniaru cyllideb a fyddai'n darparu rhywfaint o amddiffyniad rhag galw sy'n fwy na'r pwysau; roedd hefyd angen cronfa wrth gefn buddsoddi i arbed er mwyn symud i drawsnewid a rhoi hwb i brif brosiectau. Argymhellwyd cadw cronfeydd wrth gefn a glustnodwyd o ystyried lefel bresennol y risg.
- Amlygodd y Cynghorydd Elen Heaton effaith gofal cymdeithasol ar gyllidebau ledled Cymru, gyda 50% o bwysau yn ystod y flwyddyn wedi'u priodoli i ofal cymdeithasol yn adlewyrchu maint y pwysau, a chymhlethdod yr angen a'r galw yn y dyfodol yn cynyddu tra bod adnoddau'n lleihau. Mewn ymateb, roedd ffocws ar wasanaethau ymyrraeth gynnar/atal yn y dyfodol ac roedd angen buddsoddi yn y meysydd hynny a pharhau i archwilio atebion arloesol a thrawsnewidiol.

- Tynnodd y Cynghorydd Julie Mathews sylw at yr Asesiad o'r Effaith ar y Gymuned a oedd yn canolbwyntio ar agregiad lefel uchel o'r mesurau lleihau cyllideb cyfunol a fyddai'n ddogfen fyw, a rhoddwyd sicrwydd y byddai effaith y toriadau yn y gyllideb ar ddinasyddion yn cael eu monitro'n agos gan y Cabinet a'r Tîm Gweithredol Corfforaethol wrth symud ymlaen a chydweithio posibl yn y dyfodol gyda sefydliadau eraill i gyflawni ar gyfer y rhai mwyaf agored i niwed.

Ar y pwynt hwn, agorodd yr Arweinydd y drafodaeth i aelodau nad oeddent yn aelodau o'r Cabinet.

Lleisiodd y Cynghorydd Bobby Feeley ei gwrthwynebiad i arbedion y llyfrgell/siop un alwad. Cyfeiriodd at ddau setliad ariannu olaf Sir Ddinbych ynghyd â Chyllid Ffyniant Bro ar gyfer Dyffryn Clwyd a Gorllewin Clwyd a theimlai fod y Cabinet wedi methu â chynllunio ymlaen ac wedi methu trigolion Sir Ddinbych. Teimlai hefyd fod y cynnydd yn Nhreth y Cyngor yn annerbyniol ac nid oedd yn gallu cefnogi'r gyllideb. Cododd y Cynghorydd Huw Hilditch-Roberts gwestiynau am gyllidebau ysgolion a'r effaith ar ddysgwyr; yr angen i edrych ar atebion arloesol a newid trawsnewidiol cyn torri gwasanaethau, a phryderon ynghylch yr arbedion o £3 miliwn nas nodwyd a'r galw posibl ar gronfeydd wrth gefn. Teimlai'r Cynghorydd David Williams y dylai cynigion ar gyfer Parc Cenedlaethol newydd yng Ngogledd Ddwyrain Cymru gael eu rhoi o'r neilltu o ystyried y gost uchel.

Ymatebodd Aelodau Cabinet Arweiniol a swyddogion perthnasol i'r materion a godwyd, a chwestiynau a sylwadau dilynol, fel a ganlyn –

- roedd y setliadau gan Lywodraeth Cymru wedi cynrychioli toriad mewn termau real o ystyried chwyddiant a phwysau costau; roedd cyllid llywodraeth leol yn wynebu toriadau llym ac roedd galwadau ar Lywodraeth y DU i ailfeddwl
- roedd y Cyllid Ffyniant Bro ar gyfer prosiectau cyfalaf penodol yn gyllid cwbl ar wahân i'r Grant Cynnal Refeniw a oedd yn ariannu gwasanaethau'r cyngor
- roedd y cynnydd uchel yn Nhreth y Cyngor yn adlewyrchu'r pwysau ariannol digynsail sy'n wynebu'r awdurdod a'r angen i sicrhau cyllideb gytbwys ac roedd Cynllun Gostyngiadau Treth y Cyngor yn darparu rhywfaint o amddiffyniad i'r rhai mwyaf agored i niwed
- roedd y cyngor wedi gallu gosod cynnydd Treth y Cyngor is yn 2023/24 mewn argyfwng costau byw er budd trigolion
- nid oedd neb eisiau codi lefel Treth y Cyngor a thorri gwasanaethau, ond roedd yn anghenraid er mwyn sicrhau cyllideb gytbwys neu ddod yn fethdalwr i bob pwrpas
- ni fyddai'n bosibl aros i'r arbedion o £3 miliwn gan Benaethiaid Gwasanaeth gael eu canfod cyn gosod y gyllideb oherwydd yr amserlenni dan sylw ond y byddent yn cynnwys arbedion o'r Cynllun Ymadael Gwirfoddol
- roedd y pwysau cost ar gyfer pensiynau athrawon wedi'u cynnwys ar gyfer ysgolion ond y gobaith oedd y byddai cyllid y llywodraeth yn talu'r gost honno, ac roedd pwysau cyflogau ar gyfer swyddi nad ydynt mewn ysgolion yn rhagdybio dyfarniad cyflog o 5% a allai fod yn uwch na'r dyfarniad cyflog
- er bod risg y byddai angen cronfeydd wrth gefn heb eu clustnodi y bwriad oedd cadw'r gronfa honno a delio â'r pwysau fel y nodwyd yn yr adroddiad

- i amddiffyn y rhai mwyaf agored i niwed a mynd i'r afael â chynnydd yn y galw roedd y gyllideb yn cynnig swm ychwanegol: £7.969 miliwn ar gyfer Gofal Cymdeithasol i Oedolion a Digartrefedd, £2 miliwn ar gyfer Addysg a Gwasanaethau Plant, a £5.6 miliwn yn gyffredinol ar gyfer Ysgolion – roedd gwasanaethau eraill yn gorfod dod o hyd i arbedion a dioddef toriadau i ariannu'r rheini; roedd buddsoddiad mewn meysydd eraill yn cynnwys Gwasanaethau Gofal Maeth a'r Tîm Teuluoedd Integredig Lleol yn y Gwasanaethau Plant
- derbyniwyd bod cyllid ar gyfer dyfarniadau cyflog ar draws holl wasanaethau'r cyngor wedi'i gydnabod ac nid yn unig i ysgolion ar gyfer dyfarniadau cyflog staff ddysgu a'r rhai nad ydynt yn addysgu. Fodd bynnag, roedd y cyngor yn amsugno pwysau chwyddiant ysgolion ar gyfer cyflogau, cyfleustodau, Ardrethi Annomestig a chytundebau lefel gwasanaeth fel nad oeddent yn cael eu trosglwyddo i ysgolion, a oedd yn dasg fawr ac nid oedd yn wir ym mhob awdurdod.
- nid oedd cynnig y Parc Cenedlaethol yn ystyriaeth ar gyfer y gyllideb gyfredol. Byddai Cyfoeth Naturiol Cymru yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf yng Ngweithdy'r Cyngor ar 9 Ebrill, a byddai aelodau'n cael cyfle i drafod y mater bryd hynny.

Cynigiodd y Cynghorydd Gwyneth Ellis argymhellion yr adroddiad, gyda gwelliant i argymhelliad 3.3 i adlewyrchu Ardoll ddiwygiedig Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru o 1.11% a oedd yn cyfateb i godiad Treth y Cyngor cyffredinol o 9.34%, ac fe'i heiliwyd gan y Cynghorydd Barry Mellor.

***PENDERFYNWYD*** *bod y Cabinet –*

*(a)* *yn nodi effaith y Setliad Dros Dro ar gyfer 2024/25;*

*(b)* *cefnogi'r cynigion a amlinellir yn Atodiad 1 yr adroddiad, ac y manylir arnynt yn Adran 4 yr adroddiad, ac yn eu hargymell i'r Cyngor llawn er mwyn llunio'r gyllideb yn derfynol ar gyfer 2024/25;*

*(c)* *argymell i'r Cyngor y cynnydd cyfartalog o 8.23% yn Nhreth y Cyngor ar gyfer gwasanaethau'r Cyngor ynghyd ag 1.11% yn ychwanegol ar gyfer y cynnydd yn yr ardoll i Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru; mae hyn yn hafal i gynnydd cyffredinol o 9.34% a gynigir;*

*(d)* *argymell i'r Cyngor bod awdurdod yn cael ei ddirprwyo i Bennaeth Cyllid ac Archwilio mewn ymgynghoriad ag Aelod Arweiniol Cyllid i addasu'r defnydd o arian wrth gefn sydd wedi'i gynnwys yng nghynigion y gyllideb o hyd at £500,000 os oes yna symud rhwng ffigyrau'r setliad drafft a'r setliad terfynol er mwyn gallu gosod Treth y Cyngor yn amserol;*

*(e)* *cefnogi'r strategaeth i ddefnyddio arian wrth gefn fel y nodir ym mharagraff 4.5 yr adroddiad a'i hargymell i'r Cyngor llawn; a*

*(f)* *chadarnhau ei fod wedi darllen, deall ac ystyried yr Asesiad o Effaith ar Les fel y nodir yn Adran 7 yr adroddiad.*

Ar y pwynt hwn (11.50am) cymerodd y pwyllgor egwyl am luniaeth.

## 7 YMGYNGHORIAD LLYWODRAETH CYMRU AR "DRETH GYNGOR DECACH"

Cyflwynodd y Cynghorydd Gwyneth Ellis yr adroddiad yn ceisio cymeradwyaeth y Cabinet i'r ymateb arfaethedig i ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ar "Dreth Gyngor Decach".

Roedd Llywodraeth Cymru (LlC) wedi cychwyn ymgynghoriad ar newidiadau arfaethedig i system Treth y Cyngor gyda'r nod o wneud dosbarthu trethi'n decach drwy ostwng Treth y Cyngor i'r rhai yn y bandiau is a allai gael trafferth cyfrannu tra'n ei chynyddu ar gyfer y rhai yn y bandiau uwch. Gofynnwyd am farn ar dri opsiwn: (1) Diwygio ar Raddfa Fach; (2) Diwygio ar Raddfa Gymedrol, a (3) Diwygio Ehangach ynghyd ag amserlenni gweithredu.

Arweiniodd y Prif Reolwr Refeniw, Budd-daliadau a Chontractau'r Cabinet drwy fanylion yr adroddiad ar yr ymgynghoriad ynghyd â'r rhesymeg y tu ôl i'r ymateb arfaethedig a'r risg, y materion a'r manteision i'r Cyngor a'i drigolion. Ar ôl rhoi trosolwg o'r tri opsiwn, argymhellwyd bod y Cabinet yn cefnogi'r Diwygio Ehangach, gan ei fod yn cael ei ystyried fel y ffurf decaf o opsiwn trethiant o fewn yr ymgynghoriad ar gyfer trigolion.Mae'r risg bosibl i'r Cyngor drwy ddibynnu mwy ar gyllid Grant Cynnal Refeniw wedi cael ei amlygu yn yr ymateb arfaethedig a gofynnwyd i Lywodraeth Cymru roi mwy o sicrwydd ar effeithiau cyfatebol y Grant Cynnal Refeniw. Er mwyn sicrhau bod unrhyw effeithiau'n cael eu deall yn llawn a'u bod yn cael eu rhoi ar waith ar gyflymder y gellir ei reoli gan y cyngor, cynigwyd cefnogi'r dull fesul cam. Argymhellwyd hefyd bod penderfyniad y Cabinet ar yr ymateb arfaethedig i'r ymgynghoriad yn cael ei weithredu ar unwaith er mwyn sicrhau bod yr ymateb yn cael ei gyflwyno erbyn y dyddiad cau.

Croesawodd y Cabinet y newidiadau arfaethedig i system Treth y Cyngor i wneud y dreth yn decach ac yn fwy blaengar a chefnogodd argymhellion yr adroddiad a'r opsiwn Diwygio Ehangach a fyddai o'r budd gorau i drigolion Sir Ddinbych. Fodd bynnag, roedd y posibilrwydd o dynnu £8 miliwn o sylfaen treth y cyngor o ganlyniad i symud i'r strwythur bandiau newydd yn y cynllun estynedig a'r ddibyniaeth ddilynol ar y golled honno'n cael ei digolledu gan y Grant Cynnal Refeniw yn achos pryder a thynnodd y Cabinet sylw at bwysigrwydd setliad Grant Cynnal Refeniw teg a chymesur i alluogi'r awdurdod i ddarparu gwasanaethau i drigolion. Eglurodd y Pennaeth Cyllid ac Archwilio weithrediad y system bresennol o ddyrannu'r Grant Cynnal Refeniw ar sail gallu awdurdodau lleol i godi Treth y Cyngor a pharhad yr egwyddor honno i'r dyfodol ond byddai angen rhagor o fanylion er mwyn deall yn well oblygiadau llawn y newid hwnnw, a dyna pam y ceisir sicrwydd gan Lywodraeth Cymru yn yr ymateb i'r ymgynghoriad. Ychwanegodd y Cynghorydd Gill German ei bod yn bwysig i bob awdurdod lleol ymateb i'r ymgynghoriad er mwyn cydweithio â Llywodraeth Cymru i ddod o hyd i'r ffordd orau ymlaen.

***PENDERFYNWYD** bod y Cabinet yn –*

(a) *cymeradwyo'r ymateb arfaethedig i'r ymgynghoriad fel y nodir yn Atodiad 4 yr adroddiad, a chefnogi argymhellion swyddogion ynglŷn â'r cynnig ehangach a'i gyflawni drwy ddull fesul cam, a*

(b) *gweithredu'r penderfyniad ar unwaith fel penderfyniad brys dan Adran 7.25 Cyfansoddiad y Cyngor yn seiliedig ar y rhesymeg a nodir ym mharagraff 4.4 yr adroddiad.*

**8 ADRODDIAD CYLLID**

Cyflwynodd y Cynghorydd Gwyneth Ellis yr adroddiad a oedd yn manylu ar y sefyllfa ariannol ddiweddaraf a'r cynnydd a wnaed o ran y strategaeth y cytunwyd arni ar gyfer y gyllideb.

Rhoddwyd crynodeb o sefyllfa ariannol y Cyngor fel a ganlyn –

- y gyllideb refeniw net ar gyfer 2023/24 oedd £250.793 miliwn (£233.696 miliwn yn 2022/23)
- rhagwelwyd y byddai gorwariant o £3.229 miliwn mewn cyllidebau gwasanaeth a chorfforaethol
- amlygwyd y risgiau ar hyn o bryd a'r rhagdybiaethau yn ymwneud â chyllidebau corfforaethol a meysydd gwasanaeth unigol
- rhoddwyd manylion arbedion ac arbedion effeithlonrwydd a chynnydd mewn ffioedd a chostau (£8.172 miliwn)
- rhoddwyd diweddariad cyffredinol ar y Cyfrif Refeniw Tai, Rheoli'r Trysorlys a'r Cynllun Cyfalaf a phrosiectau mawr.

Arweiniodd y Pennaeth Cyllid ac Archwilio yr Aelodau drwy'r adroddiad. Bu gostyngiad bychan yn y gorwariant a ragwelwyd ar gyllidebau gwasanaeth a chorfforaethol o £96k o gymharu â'r mis blaenorol ac roedd y prif feysydd gorwariant yn parhau i fod oherwydd pwysau ym meysydd Gofal Cymdeithasol Oedolion a Digartrefedd, Addysg a Gwasanaethau Plant a Gwasanaethau Priffyrdd ac Amgylcheddol. Bu cynnydd yn y Gwasanaethau Addysg a Phlant oherwydd bod anghenion dau leoliad presennol yn cynyddu gan arwain at symudiad negyddol o £480k a oedd wedi'i wrthbwyso gan wasanaethau'n canfod arbedion yn ystod y flwyddyn drwy roi'r gorau i wariant nad oedd yn hanfodol ac oedi gwariant lle bo modd. Roedd y Cyfrif Refeniw Tai wedi nodi gostyngiad bychan yn eu tanwariant o £122k i £108k oherwydd gostyngiad bychan mewn incwm rhent gyda rhagolygon o falans diwedd blwyddyn o £754k. Nid oedd unrhyw newid yn y defnydd a ragwelwyd o gronfeydd wrth gefn ar gyfer ysgolion. Roedd yr atodiadau arferol wedi'u cynnwys ar y Cynllun Cyfalaf a Phrosiectau Mawr.

Diolchodd yr Arweinydd i'r Aelod Arweiniol a'r Pennaeth Gwasanaeth am eu gwaith caled parhaus ac ailadroddodd bwysigrwydd yr adroddiadau monitro rheolaidd.

***PENDERFYNWYD*** *bod y Cabinet yn nodi'r cyllidebau a bennwyd ar gyfer 2023/24 a'r cynnydd yn ôl y strategaeth y cytunwyd arni.*

**9 RHAGLEN GWAITH I'R DYFODOL Y CABINET**

Cyflwynwyd rhaglen waith i'r dyfodol y Cabinet i'w hystyried a nododd yr aelodau un ychwanegiad ar gyfer mis Chwefror ar 'Cynigion Cyllideb Gyfalaf 2024/25'.

***PENDERFYNWYD*** *nodi rhaglen gwaith i'r dyfodol y Cabinet*.

**Gwahardd y wasg a'r cyhoedd**

***PENDERFYNWYD*** *gwahardd y Wasg a'r Cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer yr eitem fusnes ganlynol, dan ddarpariaethau Adran 100A Deddf Llywodraeth Leol 1972, ar y sail y byddai gwybodaeth eithriedig yn debygol o gael ei datgelu fel y'i diffinnir ym Mharagraffau 12 a 14 Rhan 4 Atodlen 12A y Ddeddf.*

**10 GWAREDU FFERM PERONNE, FFORDD COPPY, DINBYCH**

Cyflwynodd y Cynghorydd Gwyneth Ellis yr adroddiad cyfrinachol yn gofyn am sêl bendith y Cabinet i ddatgan bod Peronne Farm yn warged i ofynion y Cyngor ac i gymeradwyo cael gwared arni fel y nodir yn yr adroddiad yn unol â'r polisi presennol.

Dywedwyd wrth y Cabinet bod yr eiddo'n rhan o'r Ystâd Amaethyddol a darparwyd manylion ei drefniadau gweithredu presennol ynghyd â'r cytundebau tenantiaeth sydd ar waith a'r telerau gwaredu arfaethedig. Fel rhan o'r broses cysylltwyd ag aelodau ward lleol a'r cyngor cymuned lleol ac ni dderbyniwyd unrhyw wrthwynebiadau i'r gwarediad. Roedd y Grŵp Rheoli Asedau hefyd yn cefnogi'r gwarediad fel y nodwyd ac yr argymhellwyd i'r cyngor.

Wrth ystyried yr adroddiad nododd y Cabinet y byddai cyfran o elw net y gwerthiant yn cael ei ddefnyddio i ariannu gwariant cyfalaf cyfredol a fyddai'n lleihau costau benthyca'r Cyngor ac yn caniatáu rhyddhau cyllid o'r gyllideb ariannu cyfalaf i ariannu'r pwysau parhaus a grëwyd gan y gwarediad, a oedd yn dal i adael derbyniad cyfalaf sylweddol. O ran darparu manylion y derbyniadau cyfalaf a gynhyrchwyd a'u defnydd, gellid cynnwys y wybodaeth hon yn y Strategaeth Gyfalaf yn y dyfodol. Byddai'r Cabinet yn trafod y Cynllun Cyfalaf yn ei gyfarfod nesaf.

***PENDERFYNWYD*** *bod y Cabinet yn –*

*(a) cymeradwyo datgan nad oes angen Fferm Peronne, sydd ag amlinell goch ar y cynllun yn Atodiad A yr adroddiad, a chymeradwyo cael gwared â'r fferm fel y nodir yn yr adroddiad, a*

*(b) chadarnhau ei fod wedi darllen, deall ac ystyried yr Asesiad o Effaith ar Les (Atodiad D yr adroddiad) fel rhan o'i ystyriaethau.*

Daeth y cyfarfod i ben am 12.25pm.

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

| | |
|---|---|
| **Adroddiad i'r** | Cabinet |
| **Dyddiad y cyfarfod** | 20 Chwefror 2024 |
| **Aelod Arweiniol / Swyddog** | Y Cynghorydd Rhys Thomas – Aelod Arweiniol Tai a Chymunedau / Mark Cassidy – Swyddog Arweiniol Eiddo Tai |
| **Pennaeth Gwasanaeth** | Liz Grieve, Pennaeth Gwasanaeth Tai a Chymunedau |
| **Awdur yr Adroddiad** | Mark Cassidy – Swyddog Arweiniol Eiddo Tai |
| **Teitl** | Fframwaith Ailwampio Tai Gwag y Cyngor |

## 1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

1.1. Ail-dendro Fframwaith Tai Gwag Cymunedol Cyngor Sir Ddinbych.

## 2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

2.1. Ceisio cymeradwyaeth y Cabinet ar gyfer ail-dendro'r Fframwaith.

## 3. Beth yw'r Argymhellion?

3.1. Bod y Pwyllgor yn cadarnhau ei fod wedi darllen, deall ac ystyried yr Asesiad o Effaith ar Les (Atodiad 1) fel rhan o'i ystyriaethau.

3.2. Bod y Cabinet yn cymeradwyo ail-dendro'r Fframwaith.

## 4. Manylion yr adroddiad

4.1. Mae Gwasanaeth Tai'r Cyngor yn rheoli ac yn cynnal oddeutu 3,480 o eiddo tenantiaeth. Wrth i denantiaid symud, mae oddeutu 250 o dai'n dod yn wag bob blwyddyn (yn wag tra bod tenantiaid newydd yn cael eu dyrannu).

4.2. Mae'r Cyngor yn cymryd y cyfle hwn i ailwampio'r unedau i'r safon gosod newydd gan arwain at wariant o dros £4 miliwn y flwyddyn.

4.3. Mae Fframwaith Tai Gwag yn lleihau costau ac amser mewn perthynas ag ymgymryd â gwaith ar unedau tai gwag ac yn lleihau gwariant o'r Cyfrif Refeniw Tai wrth gynnal y safonau uchel a bennir gan Sir Ddinbych yn nhermau darparu tai o ansawdd i denantiaid tai'r Cyngor.

4.4. Cafodd y Fframwaith Tai Gwag cyntaf presennol ei awdurdodi gan y Cabinet yn 2018.

4.5. Mae'r Fframwaith presennol wedi profi, trwy enwebu contractwyr lleol i weithio gyda Sir Ddinbych dros oes y Fframwaith, bydd gwasanaeth gwell yn cael ei darparu yn nhermau ansawdd a gwerth.

4.6. Gan fod y contractwyr yn lleol, mae'r arian yn aros yn Sir Ddinbych, a gan eu bod yn lleol, mae gennym amseroedd cyflawni cyflym ar gyfer cwblhau gwaith adfer a hefyd ar gyfer tendro gwaith newydd ar dai gwag.

4.7. Yn 2017, fe wnaeth Tai Sir Ddinbych benderfyniad strategol i gynnig safonau tai gwag gwell i'n tenantiaid. Mae'r ymrwymiad hwn yn cael ei adolygu'n gyson i sicrhau gwerth am arian. Bydd y safon yn cael ei adolygu yn unol â'r Safon Ansawdd Tai Cymru 2023 gofynnol newydd, a elwir yn SATC 2023.

4.8. Cafodd y Fframwaith Tai Gwag cyntaf ei lansio mewn ymateb i'r angen a nodwyd i wella caffael gwaith tai gwag. Mae'r fframwaith cyntaf wedi darparu gwelliannau ac mae iteriad nesaf y fframwaith wedi'i ddylunio i barhau â'r gwelliannau.

4.9. Gwerth a Chwmpas y Rhaglen: Mae gwerth disgwyliedig y rhaglen yn hyd at £16 miliwn dros pedair (2+1+1) blynedd, gan ailwampio oddeutu 250 o dai'r cyngor bob blwyddyn.

4.10. Trosolwg o'r Broses: Bydd y tendr wedi'i rannu yn 4 Lot yn ôl gwerth y prosiectau. Bydd Lot 1 a 2 ar gyfer prosiectau gwerth is (hyd at £8,000 y contract) gyda rhaniad Sirol daearyddol rhwng y Gogledd a'r De (o'r A55). Yn yr un modd, bydd Lot 3 a 4 yn defnyddio'r un rhaniad ar gyfer prosiectau gwerth uwch (£8000-£50,000 y contract).

4.11. Bydd gweithdrefn caffael Agored (1 cam) yn cael ei ddefnyddio. Mae'r dull hwn yn cael gwared ar rwystrau posibl i fusnesau bach a chanolig lleol wrth gystadlu â'r cwmnïau cenedlaethol mwy. Mae hyn wedi profi i fod yn llwyddiannus iawn gyda'r Fframwaith presennol.

4.12. Bydd y pwysoliad ansawdd/pris ar gyfer pob lot yn 60/40.

4.13. Mae uchafswm o 4 contractwr wedi'i bennu ar gyfer y dyfarniad Lot gwerth is a bydd uchafswm o 5 contractwr wedi'i bennu ar gyfer pob dyfarniad Lot gwerth uwch.

4.14. Yn amodol ar benderfyniad y Cabinet, bydd Hysbysiad Cyfnodolyn Swyddogol yr Undeb Ewropeaidd yn cael ei gyhoeddi ym mis Mai 2024.

## 5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at Gynllun Corfforaethol 2022 i 2027: Y Sir Ddinbych a Garem?

5.1. Bydd y Fframwaith wedi'i adnewyddu yn cefnogi blaenoriaethau yn y Cynllun Corfforaethol 2022 i 2027 cyfredol o ran:

5.2. Tai o ansawdd yn Sir Ddinbych sydd yn bodloni anghenion pobl. Byddwn yn darparu cartrefi sy'n bodloni anghenion ein tenantiaid ac sydd hefyd yn cydymffurfio â SATC 2023.

5.3. Sir Ddinbych Ffyniannus. Un o egwyddorion craidd y Fframwaith hwn fydd sicrhau ei fod yn hygyrch i fusnesau bach a chanolig yn Sir Ddinbych a'r Manteision Cymunedol yw y bydd cyfleoedd am brofiad gwaith a phrentisiaethau ar gael i breswylwyr.

5.4. Sir Ddinbych Mwy Gwyrdd. Fel rhan o'r Fframwaith hwn, a gyda rhaglenni cyfalaf Ôl-osod ychwanegol, byddwn yn lleihau ôl-troed carbon ein cartrefi, gan ddarparu gwres fforddiadwy i'n tenantiaid.

## 6. Faint fydd hyn yn ei gostio a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

6.1. Mae'r Fframwaith cynnal a chadw ac ailwampio yn werth £16 miliwn dros oed y Fframwaith, sef 4 blynedd. (2+1+1).

6.2. Bydd rheoli a gweithredu'r Fframwaith yn digwydd drwy drefniadau presennol ac ni fydd angen unrhyw gyllid ychwanegol ar gyfer hyn.

6.3. Mae cyngor Cyfreithiol a Chaffael yn parhau i fod yn angenrheidiol i sicrhau bod y Fframwaith newydd yn cadw at y polisi caffael a'r ddeddfwriaeth newydd.

## 7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o Effaith ar Les?

7.1. Bu i'r Asesiad o Effaith ar Les ddyfarnu 30/36 pwynt i'r Fframwaith, gyda sgôr o dair seren.

7.2. Bydd y Fframwaith yn cael effaith gadarnhaol yn gyffredinol ar genedlaethau'r dyfodol o ferwn Sir Ddinbych, trwy:

- Gael stoc tai'r cyngor mewn cyflwr gwell
- Cyfleoedd i gontractwyr lleol wneud y gwaith
- Busnes ar gyfer cadwyni cyflenwi lleol ar gyfer deunyddiau adeiladu
- Buddion cymunedol i gynnwys cyfleoedd prentis

7.3. Mae'r Asesiad o Effaith ar Les yn amgaeedig yn Atodiad 1.

## 8. Pa ymgynghoriadau sydd wedi'u cynnal gyda Chraffu ac eraill?

8.1. Rydym wedi bod yn trafod y cyfrwng gorau ar gyfer gwneud gwaith ar dai gwag gyda'r tîm caffael ac ystyrir mai ailadrodd y Fframwaith gwreiddiol yw'r un mwyaf addas.

8.2. Ymgynghorwyd â'r contractwyr a ddefnyddir ar hyn o bryd ar gyfer gwaith ailwampio Tai Gwag. Mae pob un ohonynt wedi mynegi diddordeb mewn cael eu cynnwys ar y Fframwaith.

## 9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid

9.1. Mae'r adroddiad yn ceisio cymeradwyaeth y Cabinet i dendro'r Fframwaith Tai Gwag a fydd yn sicrhau bod tai'r cyngor yn cael eu hailwampio i SATC 2023 pan fyddant yn dod yn wag. Mae cael y fframwaith ar waith yn sicrhau cydymffurfiaeth â rheoliadau caffael cyhoeddus, a bod y gwaith yn cael ei gwblhau yn brydlon am gostau cystadleuol. Mae'r rhain i gyd o fudd i'r Cyfrif Refeniw Tai sy'n ariannu'r mathau hyn o weithgarwch.

## 10. Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?

10.1. Her gyfreithiol o safbwynt y broses gaffael – rheolir drwy fewnbynnu cyngor prisiau a chyngor cyfreithiol arbenigol o safbwynt y broses ac ysgrifennu'r ddogfennaeth angenrheidiol;

10.2. Perfformiad y contractwr yn wael – bydd monitro Dangosyddion Perfformiad Allweddol o fewn y contract yn rheolaidd yn sicrhau bod sancsiynau ar gael i'r Cyngor er mwyn mynd i'r afael â pherfformiad gwael.

10.3. Contractwyr yn tynnu allan o'r Fframwaith/ yn cael eu diddymu – dylai gweddill y contractwyr ar y Lot berthnasol allu rheoli'r llwyth gwaith yn y tymor byr hyd nes bydd contractwr arall yn cael ei benodi.

## 11. Pŵer i wneud y penderfyniad

11.1 Mae'r pŵer i wneud penderfyniad wedi'i gynnwys yn Adran 2 Deddf Llywodraeth Leol 2000, Adran 111 Deddf Llywodraeth Leol 1972, Rheoliad 33 Rheoliadau Contractau Cyhoeddus 2015.

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

# The re-tendering of the Void Housing Maintenance & Refurbishment Framework :
# Well-being Impact Assessment Report

This report summarises the likely impact of the proposal on the social, economic, environmental and cultural well-being of Denbighshire, Wales and the world.

**Assessment Number:** 1171

**Brief description:** The re-tendering of the Void Housing Maintenance & Refurbishment Framework

**Date Completed:** 21/02/2023 14:23:58 Version: 2

**Completed by:** Mark Cassidy

**Responsible Service:** Finance and Audit Services

**Localities affected by the proposal:** Whole County,

**Who will be affected by the proposal?** Denbighshire Housing Maintenance, Contractors and DCC Housing team and Tenants

**Was this impact assessment completed as a group?** Yes

## Summary and Conclusion

Before we look in detail at the contribution and impact of the proposal, it is important to consider how the proposal is applying the sustainable development principle. This means that we must act "in a manner which seeks to ensure that the needs of the present are met without compromising the ability of future generations to meet their own needs."

### Score for the sustainability of the approach

**3 out of 4 stars**

**Actual score : 30 / 36.**

### Summary for each Sustainable Development principle

#### Long term

As the new Framework is being developed, we will be ensuring contractors and ourselves plan for carbon reduction and the protection of bio-diversity, by specifying such in the specification.

#### Prevention

Contractors will be engaged with to use methods of working to support DCCs climate change and biodiversity policies e.g. encouraging the use of electric vehicles and plant etc.

#### Integration

We will develop the framework specification to link with Well-being goals. In practice, the principles of well-being, and an assets-based approach to ensure DCC tenants have quality housing that meets their needs, as defined in the Corporate Plan.

#### Collaboration

We have consulted with our colleagues in housing and contractors about the best way to develop this framework.

#### Involvement

We won't be expecting contractors to tell us how to develop this framework, however feedback from those using the current framework will be incorporated.

**Summary of impact**

| Well-being Goals | Overall Impact |
|---|---|
| A prosperous Denbighshire | Positive |
| A resilient Denbighshire | Positive |
| A healthier Denbighshire | Positive |
| A more equal Denbighshire | Neutral |
| A Denbighshire of cohesive communities | Positive |
| A Denbighshire of vibrant culture and thriving Welsh language | Neutral |
| A globally responsible Denbighshire | Positive |

**Main conclusions**

We will be using the corporate business plan as the driver for the framework, particularly item 1, A Denbighshire of quality housing that meets people's needs.

## The likely impact on Denbighshire, Wales and the world.

### A prosperous Denbighshire

#### Overall Impact

Positive

#### Justification for impact

It is positive because we expect to spend about £10M over the life of the framework, which will be invested in good quality homes and jobs.

#### Further actions required

N/A

#### Positive impacts identified:

#### A low carbon society

We will require contractors to demonstrate they are helping DCC achieve the relevant climate change initiatives. We will be seeking guidance from Roberta Bailey - Procurement Business Partner - Decarbonisation on acceptable measures, we should expect to see.

#### Quality communications, infrastructure and transport

We will ensure that our gardens are in a condition that is conducive with a good quality of life.

#### Economic development

We will be offering the opportunity for local contractors to join the framework, we will also be including community benefits as part of the tender. The CBs we'd like to see are around job creation or training, helping with talks in schools about entry into the construction industry, but also physical works to such places as community halls and spaces, similar to the CB work completed at the Phoenix Centre in Rhydwen Drive.

#### Quality skills for the long term

We expect that contractors will provide upskilling qualifications as part of their plan.

**Quality jobs for the long term**

By offering a relatively stable workflow, we trust contractors will be able to provide good, quality jobs for residents of Denbighshire.

**Childcare**

N/A

**Negative impacts identified:**

**A low carbon society**

[TEXT HERE]

**Quality communications, infrastructure and transport**

[TEXT HERE]

**Economic development**

[TEXT HERE]

**Quality skills for the long term**

[TEXT HERE]

**Quality jobs for the long term**

[TEXT HERE]

**Childcare**

[TEXT HERE]

**A resilient Denbighshire**

**Overall Impact**

Positive

**Justification for impact**

Biodiversity in the natural environment won't be affected. We will be encouraging recycling and reuse with our contractors.

**Further actions required**

N/A

**Positive impacts identified:**

**Biodiversity and the natural environment**

No impact

**Biodiversity in the built environment**

No impact

**Reducing waste, reusing and recycling**

Contractors will be expected to manage waste responsibly and within the law. Contractors will be encouraged to send rubble, timber etc. for recycling.

**Reduced energy/fuel consumption**

Any identified insulation or poorly maintained properties will be made good. Also we will be encouraging contractors to reduce travel or find an improved method to do this, such as electric vehicles if possible.

**People's awareness of the environment and biodiversity**

Tenant packs including explanations of how to operate the heating system efficiently are available to tenants.

**Flood risk management**

Small maintenance works will have no impact.

**Negative impacts identified:**

**Biodiversity and the natural environment**

[TEXT HERE]

**Biodiversity in the built environment**

[TEXT HERE]

**Reducing waste, reusing and recycling**

[TEXT HERE]

**Reduced energy/fuel consumption**

[TEXT HERE]

**People's awareness of the environment and biodiversity**

[TEXT HERE]

**Flood risk management**

[TEXT HERE]

**A healthier Denbighshire**

**Overall Impact**

Positive

**Justification for impact**

The refurbishment of homes will have some positive impacts on our tenants, however with regards to lifestyle and access to fast food etc. this framework will have little or no effect.

**Further actions required**

N/A

**Positive impacts identified:**

**A social and physical environment that encourage and support health and well-being**

We will provide our residents with a safe, quality home to live in, adding to their emotional and mental wellbeing.

**Access to good quality, healthy food**

[TEXT HERE]

**People's emotional and mental well-being**

We will provide our residents with a safe, quality home to live in, adding to their emotional and mental wellbeing.

**Access to healthcare**

[TEXT HERE]

**Participation in leisure opportunities**

[TEXT HERE]

**Negative impacts identified:**

**A social and physical environment that encourage and support health and well-being**

[TEXT HERE]

**Access to good quality, healthy food**

[TEXT HERE]

**People's emotional and mental well-being**

[TEXT HERE]

**Access to healthcare**

[TEXT HERE]

**Participation in leisure opportunities**

[TEXT HERE]

**A more equal Denbighshire**

**Overall Impact**

Neutral

**Justification for impact**

Whilst properties will be updated with modern heating systems, windows, insulation etc., this does not necessarily mean that tenants on low income could actually afford to run the heating systems.

